CYMDEITHAS DDYSGEDIG CYMRU
THE LEARNED SOCIETY OF WALES

# Pwyllgor Adnoddau Dynol
# Cyfansoddiad a Chylch Gorchwyl
# (cymeradwywyd Gorffennaf 2025)

1. Yn unol â darpariaethau'r Siarter Frenhinol a'i rheoliadau (Rheol 5 (5.4)), mae'r Cyngor wedi ffurfio Pwyllgor Adnoddau Dynol, a fydd yn cynnwys y personau canlynol, sef:

   i. Aelodau *ex officio:* Yr Ysgrifennydd Cyffredinol (a fydd yn Gadeirydd)
   ii. Pedwar aelod sydd wedi cael eu penodi gan y Cyngor o blith y Gymrodoriaeth; bydd un ohonynt yn Ddirprwy Gadeirydd
   iii. Unrhyw berson neu bersonau eraill sydd ddim yn fwy na dau, y mae'r Pwyllgor yn meddwl sydd yn addas i'w cyd-ethol fel aelodau.

2. Yn absenoldeb yr Ysgrifennydd Cyffredinol, bydd y Dirprwy Lywydd yn cadeirio'r cyfarfod.

3. Y Cworwm ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor fydd 3.

4. Bydd aelodau sydd yn cael eu penodi a'u cyd-ethol yn gwasanaethu am dymor o dair blynedd, neu am gyfnod byrrach fel y gallai'r corff penodi benderfynu. Byddant yn gymwys i wasanaethu am ddim mwy na dau dymor yn olynol, ac ar ôl hynny, bydd cyfnod pellach o dair blynedd yn mynd heibio cyn y bydd unrhyw aelod o'r fath yn gymwys i gael ei ailbenodi.

5. Bydd y Pwyllgor, wrth benodi aelodau i'w Bwyllgor, yn ymwybodol o ymrwymiad y Gymdeithas i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Chynllun Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y Gymdeithas.

6. Yn amodol ar ddarpariaethau'r Siarter Frenhinol a'r is-ddeddfau, bydd y Pwyllgor Adnoddau Dynol yn ystyried unrhyw fater sy'n ymwneud ag aelodau'r staff yn y Gymdeithas, ac yn cyflwyno adroddiadau a chynghorion ar hynny i'r Cyngor.

7. Bydd y Pwyllgor Adnoddau Dynol yn gyfrifol am:

   i. Ailstrwythuro staff: mewn achosion lle byddai newidiadau yn effeithio ar oriau neu daliadau staff, a lle byddai goblygiadau ariannol cynyddol i'r elusen, mae'n rhaid i'r Pwyllgor gytuno ar y newidiadau gyda'r Pwyllgor Cyllid;
   ii. Ailraddio swyddi;
   iii. Sicrhau bod gan bawb ddisgrifiad swydd / manyleb personol;
   iv. Hawliau a chyfrifoldebau staff ac unrhyw newidiadau iddynt: byddai hyn yn cynnwys newidiadau cytundebol sylweddol, newidiadau i dâl mamolaeth/ salwch, newidiadau neu addasiadau i bolisi Adnoddau Dynol ac yn y blaen;

v. Trefniadau diogelu ac amddiffyn plant;
vi. Unrhyw faterion Adnoddau Dynol heriol: e.e. materion disgyblu neu berfformiad, dileu swyddi;
vii. Rheoli adrannau priodol o'r Gofrestr Rheoli Risg.

8. Bydd y Pwyllgor yn sicrhau bod gan y Cyngor ddigon o wybodaeth i alluogi iddo gyflawni ei gyfrifoldebau.

9. Bydd y Pwyllgor yn ymarfer y pwerau dirprwyedig a allai gael eu rhoi iddo gan y Cyngor, am gyfnod o'r fath ac o dan delerau o'r fath y gall y Cyngor benderfynu arnynt, yn unol ag is-ddeddf 5.4.

## Blaengynllun Busnes

Bydd y Pwyllgor hwn yn cyfarfod o leiaf unwaith y flwyddyn, gyda chyfarfodydd achlysurol yn ôl yr angen. O 2024 ymlaen, mae'r Pwyllgor yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn.

Mae eitem safonol ar gyfer pob cyfarfod:

- Cyflwyniad y Cadeirydd
- Cofnodion y cyfarfod diwethaf
- Tracio Camau Gweithredu
- Dyddiadau cyfarfodydd
- Unrhyw Fater Arall

Mae eitem sy'n digwydd dro ar ôl tro yn cael eu rhestru isod:

- Adolygu swydd-ddisgrifiadau staff (bob dwy flynedd)
- Adolygu cyflog a graddfa (yn ôl yr angen)
- Adolygu Llawlyfr CDdC/ Polisïau Adnoddau Dynol (gwahanol adrannau i'w hystyried yn flynyddol)
- Rheoli cwynion a phryderon staff (yn ôl yr angen)

Mae'n cael ei gynnig bod Cadeirydd y Pwyllgor Adnoddau Dynol yn cytuno ar yr agenda cyn bob cyfarfod.